

Gwleidyddiaeth

Beth yw Etholiad y Cynulliad?



Beth yw Etholiad y Cynulliad?

Dyma gerdd rap sy'n egluro popeth, gobeithio!

Mae'r Cynulliad yng Nghaerdydd, ry'ch chi'n gwybod hynny,
A phob pum mlynedd, mae'n rhaid penderfynu
Pwy fydd y chwe deg aelod sy'n eistedd yn y seddi
Er mwyn creu deddfau fydd yn gwella Cymru.

Felly ddydd Iau, y pumed o Fai,
Bydd pobl yn pleidleisio, dim mwy, dim llai.
Mae sawl plaid yn ymladd, yn mynd ati o ddifrif:
Tri deg un sedd sydd yn rhoi mwyafrif.

Llafur sy' 'di bod yn rheoli'n selog,
Gyda Carwyn Jones yn Brif Weinidog.
Y Ceidwadwyr, Plaid Cymru, a'r Democratiaid Rhyddfrydol
Y Blaid Werdd ac UKIP sy'n ymgyrchu'n benderfynol.

Gall pawb dros ddeunaw fynd i fwrw pleidlais;
A dweud y gwir mae **dwy**, ac mae hynny'n fantais.
Y **gyntaf** i'r ymgeisydd mewn **etholaeth leol**
A fydd yn Aelod Cynulliad dros yr ardal benodol.
A'r **ail** i ymgeisydd ar restrï gan y pleidiau
A fydd yn Aelod dros y **rhanbarth**, o'r gorau?

Fe fydd y chwe deg Aelod wrthi'n trafod polisïau
A fydd yn dod wedyn yn fesurau a deddfau.
Fe fydd hyn ar bynciau fel lechyd a Thrafnidiaeth,

Addysg, Diwylliant ac Amaethyddiaeth.

Bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub, a Thwristiaeth
Datblygu Economaidd, yr Amgylchedd a Choedwigaeth
Yn cael eu sylw, heb anghofio am feysydd Tai,
Adeiladau Hanesyddol, y Gymraeg ac Ysbytai.

Felly dwedwch wrth bawb ry'ch chi'n eu hadnabod
Am fynd i bleidleisio; mae'n reit bwysig, chi'n gwybod.
Achos am bum mlynedd, bydd y Senedd yn rheoli
Yr holl bethau hyn fydd yn digwydd inni.

Geirfa

Cymraeg

Disgrifiad

Saesneg

selog

cyson, rheolaidd

constant

ymgyrchu

cynnal ymgyrch

to campaign

Adeilad Senedd Cymru - Gweiddi



Mae adeilad Senedd Cymru'n dathlu ei ben-blwydd yn ddeg oed yn 2016. Cafodd ei agor ar 1 Mawrth, 2006.

Fuoch chi yno erioed? Mae llawer o ymwelwyr wedi bod yno dros y deng mlynedd diwethaf:

- Mae cannoedd o ddisgyblion o bob cwr o Gymru wedi dod i weld y Senedd.
- Mae 31 000 taith wedi bod o gwmpas y Senedd.
- Mae 1 000 000 o bobl wedi ymweld â'r adeilad.



Adeilad arbennig

Mae'r adeilad yn un arbennig iawn.

- Mae wedi ennill nifer o wobrau.

- Yr Arglwydd Richard Roberts, pensaer enwog, wnaeth y cynllun.
- Defnyddiodd lawer o ffenestri gwydr i ddangos bod pawb yn gallu gweld beth sy'n digwydd yn y Senedd.
- Mae'r adeilad i fod i bara 100 mlynedd.
- Mae 36% o'r deunyddiau'n dod o Gymru, gan gynnwys 1 000 tonnell o lechi o Gymru.
- Costiodd adeilad y Senedd £70m i'w godi.
- Er mwyn mynd i mewn i'r Senedd, mae'n rhaid mynd drwy system ddiogelwch sy'n debyg iawn i'r un mewn maes awyr.



Adeilad gwyrdd

Adeilad y Senedd yw un o'r rhai mwyaf gwyrdd yng Nghymru:

- Mae'n defnyddio rhwng 30% a 50% yn llai o ynni nag adeiladau arferol.
- Mae pibellau wedi cael eu drilio 100m o dan y ddaear. Pan fydd hi'n oer, mae dŵr yn cael ei bwmpio i lawr drwy'r pibellau ac mae ynni naturiol o'r ddaear yn twymo'r dŵr i 14°C. Wedyn, bydd y dŵr yn cael ei bwmpio i fyny i'r llawr llechen er mwyn twymo'r adeilad.
- Mae dŵr glaw yn cael ei gasglu o'r to ac yn cael ei ddefnyddio i fflysio'r toiledau yn yr adeilad.
- Mae boeler biomas yn llosgi sglodion pren gwastraff er mwyn twymo'r adeilad.

Beth sy'n digwydd yn y gwahanol rannau o'r Senedd?

Os ydych chi'n edrych ar yr adeilad o'r tu allan, rydych chi'n gweld y **Neuadd** drwy'r ffenestri gwydr. Yma mae'r dderbynfa sydd â desg lechen fawr.

Yn **Siambr y Senedd**, mae'r 60 Aelod Cynulliad (AC) yn cwrdd i drafod. Mae'r seddi wedi'u gosod mewn cylch, gyda'r Prif Weinidog yn y rhes flaen. O flaen pob AC, mae desg o bren derw o Gymru.

Rydych chi'n gallu gwyllo Aelodau'r Cynulliad os ewch chi i'r **Oriel gyhoeddus**. Yma mae'r twndis

neu'r twmffat pren sy'n edrych fel coeden. Mae llawer o **ystafelloedd pwyllgor** hefyd yn yr adeilad. Yma, mae'r Aelodau'n trafod pethau penodol.





Pleidlais i rai 16 oed?

Yma, mae ffrindiau'n trafod. Mae rhai **o blaid**, a rhai **yn erbyn** cael y bleidlais yn 16 oed.

Hoffwn i bleidleisio pan fyddaf i'n 16 oed. Mae gen i ddiddordeb ym mhopeth sy'n digwydd yng Nghymru; pethau fel iechyd ac addysg.

Carys

Dwi ddim yn siŵr ein bod ni'n barod i bleidleisio pan fyddwn ni'n 16 oed. Dwi'n gwybod nad oes llawer o bobl dros 18 oed yn pleidleisio, ond does dim rhaid i rai 16 oed gael pleidlais.

Morgan

Os ydw i'n cael priodi ac ymuno â'r fyddin pan fyddaf i'n 16 oed, dylwn i gael pleidleisio hefyd.

Liam

Mae'n rhaid bod yn 18 oed i wneud llawer o bethau fel prynu alcohol, gamblo, cael tatŵ, defnyddio gwely haul... Felly os dydyn ni ddim yn cael gwneud y pethau hyn yn 16 oed, dwi ddim yn credu y dylen ni gael pleidleisio chwaith.

Sara

Bydd llawer o'r pethau sy'n digwydd yn y Cynulliad yn cael effaith amon ni yn y dyfodol. Felly dylen ni gael pleidleisio.

Rhodri

Hoffwn i gael prentisiaeth pan fyddaf i'n hŷn. Felly, dwi eisiau pleidleisio pan fyddaf i'n 16 oed. Byddaf i'n pleidleisio dros blaid sy'n mynd i gael mwy o brentisiaethau i bobl ifanc.

Beca

Rydyn ni wedi cael gwersi dinasyddiaeth yn yr ysgol, felly rydyn ni'n gwybod llawer am wahanol faterion. Felly, yn fy mam i, rydyn ni'n barod i bleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.

Molly


Dwi'n anghytuno. Byddaf i'n barod i bleidleisio pan fyddaf i'n 16 oed. Dwi'n gwybod beth dwi'n ei gredu. Dydy llawer o oedolion ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei gredu, ond maen nhw'n cael pleidleisio.

Lea

Ond dwi ddim yn 'nabod llawer o ddisgyblion sy'n gwybod beth maen nhw'n ei gredu eto. Mae rhai'n credu beth mae'r athrawon yn ei ddweud, ac yn methu meddwl drostyn nhw eu hunain. Felly, ddylen ni ddim cael pleidleisio pan ydyn ni'n 16 oed.

Jo

Gwleidyddion enwog Cymru - Gweiddi



Keir Hardie (1856–1915)

O Swydd Lanark yn yr Alban roedd Keir Hardie yn dod, ond bu'n Aelod Seneddol dros Ferthyr Tudful. Roedd yn un o'r rhai a sefydlodd y Blaid Lafur Annibynnol yn 1893, fe oedd Aelod Seneddol cyntaf y Blaid Lafur a bu'n Arweinydd hefyd.

Chafodd Keir Hardie ddim addysg pan oedd yn blentyn. Dechreuodd weithio gyda phobydd pan oedd yn wyth oed, yn dosbarthu bara. Pan oedd yn un ar ddeg oed, aeth i weithio fel glöwr. Dysgodd ei hun i ddarllen ac ysgrifennu gyda help ei rieni.

Daeth yn Aelod Seneddol (AS) cyntaf y Blaid Lafur, yn West Ham yn nwyrain Llundain yn 1892, ond collodd ei sedd yn 1895. Yn 1900, cafodd ei ethol yn AS Merthyr Tudful. Roedd yn credu mewn cael addysg am ddim, pensiynau, a hawliau i fenywod. Hefyd roedd yn erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Pan oedd Keir Hardie yn Arweinydd y Blaid Lafur ym Mhrydain, daeth y blaid yn fwy poblogaidd. Yn 1900, dim ond dau AS oedd gan y Blaid Lafur. Erbyn 1906, roedd 26 AS, ac erbyn 1910, roedd 40 AS.




David Lloyd George (1863–1945)

Hyd yma, Lloyd George yw'r unig Gymro Cymraeg sydd wedi bod yn Brif Weinidog Prydain. Cafodd ei eni yn Llanystumdwy, ger Cricieth, Dwyfor ac aeth i'r ysgol gynradd yno.

Cafodd ei hyfforddi fel cyfreithiwr. Pan gafodd ei ethol yn Aelod Seneddol y Rhyddfrydwyr dros Arfon yn 1890, fe oedd aelod ieuengaf Tŷ'r Cyffredin.

Cyfraniad mawr Lloyd George oedd cyflwyno'r Wladwriaeth Les. Ystyr hyn yw bod y wlad yn rhoi help i bobl mewn angen fel y di-waith, pobl sâl a'r henoed (pensiynau). Hefyd roedd yn siaradwr gwych, ac yn enwog am areithio'n danbaid.

Yn 1915, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth yn Weinidog Arfau Rhyfel ac wedyn yn Brif Weinidog rhwng 1916 a 1922.



Aneurin Bevan (1897–1960)

Mae Aneurin Bevan yn enwog drwy Brydain am sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS).

Cafodd ei eni yn Nhredegar. Glöwr oedd ei dad ac roedd Aneurin yn un o ddeg o blant. Gadawodd yr ysgol yn ifanc a mynd i weithio yn y pwll glo yn 13 oed.

Pan oedd yn 22 oed, cafodd ysgoloriaeth i fynd i astudio economeg, hanes a gwleidyddiaeth yng Ngholeg Canolog y Blaid Lafur yn Llundain. Bu'n ddi-waith am gyfnod ar ôl dychwelyd i Gymru. Ar ôl bod yn gynghorydd sir am gyfnod, cafodd ei ddewis i fod yn ymgeisydd y Blaid Lafur yn etholaeth Glyn Ebwy yn 1929. Enillodd y sedd honno a'i chadw am 31 mlynedd.

Yn 1945, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, daeth Aneurin Bevan yn Weinidog dros Iechyd yn y llywodraeth Lafur. Pasiwyd **Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol** Aneurin Bevan yn 1946, a chafodd y Gwasanaeth ei sefydlu yn 1948. Nawr, doedd dim rhaid i bobl dalu am weld y meddyg neu am aros yn yr ysbyty, roedd arian cyhoeddus yn talu am hynny.



Gwynfor Evans (1912–2005)

Gwynfor Evans oedd aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru. Cafodd ei eni yn y Barri ac roedd ei deulu'n rhedeg nifer o siopau. Hyfforddodd fel cyfreithiwr, ond bu'n gweithio fel garddwr masnachol yn Llangadog, yn Nyffryn Tywi, am y rhan fwyaf o'i oes.

Pan oedd yn y Brifysgol yn Aberystwyth, sefydlodd Gwynfor Evans gangen o Blaid Cymru. Roedd yn heddychwr a gwrthododd ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Yn 1945, daeth yn Llywydd Plaid Cymru ac arhosodd yn llywydd am 36 mlynedd.

Yn y 1950au dechreuodd ymgyrch yn erbyn boddi pentref Cwm Celyn ger y Bala – cynllun i greu cronfa Tryweryn i roi dŵr i Lerpwl. Methodd yr ymgyrch hon, ond daeth llawer iawn o bobl i ddeall bod angen gofalu am gymunedau Cymraeg a'r iaith Gymraeg. Daeth Plaid Cymru'n llawer mwy poblogaidd yn ystod ymgyrch Tryweryn.

Ym mis Gorffennaf 1966, yn annisgwyl iawn, enillodd isetholiad Caerfyrddin. Dyma'r tro cyntaf i Blaid Cymru ennill sedd yn San Steffan. Aeth cannoedd o bobl i Lundain i'w weld yn mynd i Dŷ'r Cyffredin am y tro cyntaf.

Collodd ei sedd ddwywaith yn y 1970au, ac ymddeolodd fel Aelod Seneddol yn 1979. Yn 1980, dywedodd y Llywodraeth Geidwadol nad oedd yn mynd i sefydlu pedwaredd sianel Gymraeg fel roedd wedi addo. Felly, dechreuodd Gwynfor Evans ymprydio a bygwth llwgu ei hun i farwolaeth. Newidiodd y Llywodraeth ei meddwl, a chafodd S4C ei sefydlu yn 1982.



Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru ers 2009



Mae Carwyn Jones, A.C., yn Brif Weinidog Cymru ers mis Rhagfyr 2009. Cafodd ei eni yn Abertawe a'i fagu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae ei deulu'n siarad Cymraeg ac mae llawer o berthnasau ganddo yn Nyffryn Aman. Ar ôl bod yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Brynteg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, aeth i astudio ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Bu'n gweithio fel bargyfreithiwr am ddeng mlynedd cyn cael ei ethol i'r Cynulliad yn 1999.

Dyma atebion y Prif Weinidog i gwestiynau *Gweiddi*:

1. Sut dechreuodd eich diddordeb chi mewn gwleidyddiaeth?

Yn ystod Streic y Glowyr ym 1984. Roedd cefndir glofaol gan fy nheulu ac roeddwn i'n grac iawn gyda'r Llywodraeth Geidwadol yr adeg honno.

2. Beth oedd eich oed ar y pryd?

17. Roeddwn i yn y Chweched Dosbarth.

3. Beth yw'r peth pwysicaf rydych chi wedi'i gyflawni fel gwleidydd a Phrif Weinidog?

Y Ddeddf Rhoi Organau. Bydd 'na lawer o fywydau yn cael eu hachub o achos y gyfraith hon.

4. Beth yw'r peth gorau am fod yn Brif Weinidog Cymru?

Amrywiaeth y swydd. Rydych chi'n cwrdd â phobl ddiddorol ac yn gweld llyfdd diddorol.

5. Beth yw'r peth gwaethaf am fod yn Brif Weinidog Cymru?

Yr amser mae'r swydd yn cymryd o'ch bywyd. Mae'n anodd cadw amser i'ch teulu.

6. Beth yw'r problemau mwyaf sy'n wynebu Cymru yn 2016?

Mae'r byd yn ansicr ar hyn o bryd a bydd 'na heriau i Gymru ac i bob gwlad yn y dyfodol heb weld mwy o gryfder yn economi'r byd.

7. Beth yw eich uchelgais ar gyfer Cymru?

Rydw i eisiau gweld gwlad sy'n dal i ennill buddsoddiad a swyddi i'n pobl. Trwy hyn gallwn ni godi hyder ein pobl. Does dim rheswm i ni feddwl ein bod ni'n methu bod gyda'r gorau yn y byd.

8. Fyddech chi o blaid rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed? Pam?

Rydw i o blaid pleidlais i bobl 16 oed. Os ydych chi'n medru talu trethi, gweithio ac ymuno â'r lluoedd arfog, pam ddim pleidleisio?

9. Beth rydych chi'n gallu ei weld drwy ffenestr eich swyddfa?

Canolfan Mileniwm Cymru. Ar un adeg roedd hi'n bosib gweld Stadiwm Principality ond mae'r Ganolfan yn y ffordd nawr!

10. Beth roeddech chi'n hoffi ei ddarllen pan oeddech chi'n ifanc?

Llyfrau ffuglen a hanes. Llyfrau Willard Price a'r 'Three Investigators'. Darllenais i lyfr o'r enw Kings and Things yn ifanc iawn a sbardunodd hwn ddiddordeb mewn hanes. Dydy'r llyfr hwn ddim yn 'wleidyddol gywir' yn yr oes hon!

11. Beth oedd eich diddordebau pan oeddech chi'n ifanc?

Darllen a chwaraeon. Rygbi, pêl-droed, criced, nofio. Bron popeth!

12. Beth yw eich diddordebau nawr, os oes amser gyda chi ar gyfer diddordebau?

Amser yw'r broblem! Cerdded, ambell gêm o golff. Ond fel rheol, gwasanaeth tacsï ydw i i'r plant!

13. Ble mae eich hoff fannau yng Nghymru?

Castell Carreg Cennen yn y de. Ddim yn bell o Ddyffryn Aman.

Aberaeron yn y Canolbarth. Rydw i'n hoff iawn o'r ardal honno o Geredigion.

Copa'r Wyddfa yn y Gogledd. Rydw i wedi cerdded lan sawl gwaith a phan mae'n glir mae 'na olygfa hyfryd.

14. Beth fyddai eich cyngor i berson ifanc sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth?

Dilynwch y diddordeb, ond gwnewch rywbeth arall i gael profiad eang cyn mynd mewn i wleidyddiaeth yn llawn amser. Wnes i hyn drwy weithio fel bargyfreithiwr am ddeng mlynedd. Profiad ardderchog cyn mynd i fyd gwleidyddiaeth.

15. Beth fydddech chi'n ei ddweud wrth rywun sy'n meddwl nad yw gwleidyddiaeth yn bwysig?

Heb bleidlais, heb lais!

Gwleidydd ifanc - Gweiddi



PLAID CYMRU YN DEWIS ‘COG* LLEOL’ YN YMGEISYDD YN SEDD MALDWYN

Mae Plaid Cymru wedi dewis Aled Morgan Hughes o Langadfan yn ymgeisydd ym Maldwyn ar gyfer etholiad y Cynulliad fis Mai eleni.

Mae Aled yn siaradwr Cymraeg rhugl, a chafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Dyffryn Banw ac Ysgol Uwchradd Caereinion, gan fynd ymlaen i astudio graddau mewn Gwleidyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Erbyn hyn mae'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.

Roedd Aled Hughes ar ben ei ddigon o gael ei ddewis, yn arbennig oherwydd ei gysylltiad â'r ardal.

“Mae fy nheulu'n wedi byw a gweithio yn yr etholaeth am genedlaethau, ac rwyf yn teimlo'n hynod angerddol tuag at hanes, pobl a dyfodol yr ardal,” meddai'r mab i gyn-athro Cymraeg.

“Fel cog* lleol, rwy'n ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau gwledig o ddydd i ddydd. Dro ar ôl tro, rydyn ni'n cael ein hanghofio a'n hesgeuluso gan y Torïaid yn San Steffan a'r Blaid Lafur ym Mae Caerdydd.

“Mae'r toriadau di-ben-draw yn gadael ein gwasanaethau cyhoeddus mewn anhrefn llwyr – o'n hysgolion i'n gwasanaethau iechyd – mae ein cymunedau'n wynebu argyfwng.



Dyma enghraifft o **ddatganiad i'r wasg** am **Aled Morgan Hughes**, 23 oed, ymgeisydd ieuengaf Plaid Cymru yn etholiad y Cynulliad. Mae'n sefyll yn etholaeth Maldwyn.

“Does gen i ddim amheuaeth o gwbl y byddai llywodraeth Plaid Cymru yn helpu Maldwyn i ffynnu. Os caf fy ethol, rwy'n addo bod yn llais cryf, cyfeillgar dros Faldwyn, a Chymru Wledig.”

*cog = gair tafodieithol am 'bachgen'

Er gwybodaeth:

Yn ymladd yn erbyn Aled Hughes am sedd Maldwyn mae:

Russell George (Ceidwadwyr) – yr Aelod Cynulliad presennol

Jayne Dodds (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)

Richard Chaloner (Y Blaid Werdd)

(Nid oedd enwau ymgeiswry Blaid Lafur ac UKIP wedi'u cyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2016, pan gafodd y gwaith hwn ei baratoi.)

Hanes y bleidlais - Gweiddi



1.

Cyn deddf un naw un wyth,

Y rhai a gâi bleidleisio

Oedd dynion cefnog oedd â thŷ

Neu ragor fyth o eiddo.

2.

Dim pleidlais, felly i'r rhai

Oedd wrthi yn llafurio

Mewn caeau neu mewn pwell glo dwfn,

A bu 'na gryn brotestio.

3.

Fe aeth menywod dewr

I fynnu cael y bleidlais,

Swffragetiaid oedden nhw:

A mawr oedd eu huchelgais.

4.

Drwy'r rhyfel cas a hir,

Fe fu ein harwresau

Yn chwysu mewn ffatrioedd mawr,

Yn gweithio gydag arfau.

5.

Pan ddaeth y brwydro i ben,

Fe roddwyd i bob dynes

Oedd yn dri deg oed, un bleidlais fach;

A dyna ran o'r hanes.

6.

Doedd hynny ddim 'run fath

Âr dynion gâi bleidleisio

Yn ddau ddeg un, ond yn y man

Ca'dd hynny ei gywiro.

7.

'Mhen degawd rhoddwyd hawl

I ferched fynd i'r bythau

Pan oeddent hwythau'n ddau ddeg un,

A mawr oedd y dathliadau.

8.

Ym mil naw chwe deg naw,

Gostyngwyd yr oed eto;

A nawr caiff pawb sy'n un deg wyth

Fynd ati i bleidleisio.

9.

Ac felly, pan fydd rhai

Yn dweud, “Dwi ddim yn hidio

Am fwrw 'mhleidlais y tro hwn.”

Mi fyddaf innau'n gwylltio.

Gyrfaoedd ym maes gwleidyddiaeth - Gweiddi



Oddi wrth:swyddi@cymru.com

Annwyl Dylan Huw,

Diolch yn fawr am dy neges. Mae gwleidyddiaeth yn faes diddorol dros ben a does dim rhaid bod yn wleidydd i weithio ynddo.

Wedi dweud hynny, mae ymddiddori mewn gwleidyddiaeth yn gam cyntaf pwysig iawn.

Os wyt ti'n cefnogi un blaid wleidyddol yn benodol, wyt ti wedi ystyried gwirfoddoli gyda'r blaid honno? Neu gallet ti wirfoddoli gyda mudiad, e.e. mudiad iaith, amgylcheddol, er mwyn dysgu rhagor am sut mae'r system wleidyddol yn gweithio. Mae profiad gwaith gwirfoddol yn aml yn llwybr i mewn i'r maes.

Mae rhai pobl yn astudio gwleidyddiaeth yn y brifysgol cyn cael swydd yn y maes hwn, ond does dim rhaid o gwbl. Er enghraifft, gallet ti astudio unrhyw bwnc, ond dy fod yn gwneud gwaith gwirfoddol (fel y soniais i uchod) gyda mudiad, plaid neu undeb y myfyrwyr. Byddai hynny'n dangos dy fod yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth.

Dyma rai swyddi penodol, felly:

Ymchwilydd sy'n gweithio gyda phlaid wleidyddol neu gydag Aelod Seneddol

Mae ymchwilydd yn:

- darllen beth sy'n cael ei ddweud yn y wasg / y cyfryngau cymdeithasol ac ati
- ymchwilio i gefndir materion gwleidyddol
- ysgrifennu adroddiadau
- helpu gyda busnes yn yr etholaethau

Asiant plaid wleidyddol

Mae asiantau plaid wleidyddol yn:

- trefnu a chynorthwyo plaid wleidyddol mewn etholaeth a hyrwyddo'r plaid a'r cynrychiolwyr
- gweithio oriau hir amser etholiadau, yn gwneud llawer o ymgyrchu a chanfasio

Newyddiadurwr gwleidyddol

Mae newyddiadurwyr gwleidyddol yn:

- casglu a dadansoddi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad yng Nghaerdydd neu yn San Steffan yn Llundain
- paratoi adroddiadau, erthyglau a chyfweiliadau – ar gyfer papurau newydd, cyhoeddiadau ar-lein, darllediadau teledu a radio
- rhoi gwybod i'r cyhoedd am newyddion gwleidyddol sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol, ym Mhrydain, yn Ewrop a thu hwnt.

Y gwasanaeth sifil

Mae gweision sifil yn:

- gwneud gwaith gweinyddol y llywodraeth – yng Nghaerdydd neu yn Llundain
- gweithredu polisïau'r llywodraeth, felly mae gweision sifil yn gallu gweithio mewn meysydd sy'n cael effaith fawr ar fywydau bob dydd pobl, e.e. iechyd ac addysg.

Wel, Dylan, gobeithio bod hyn o ryw gymorth i ti. Y prif beth, rwy'n meddwl, yw cael profiad gwaith gwirfoddol yn gyntaf.

Cofia gysylltu os gallaf fod o gymorth eto.

Hwyl am y tro,

Sara Williams

Addewidion, addewidion! - Gweiddi



Dyma'r prif addewidion y mae rhai o'r pleidiau wedi'u gwneud cyn etholiadau'r Cynulliad (Roedd rhai pleidiau heb gyhoeddi eu haddewidion erbyn diwedd mis Mawrth 2016).

Maen nhw wedi cael eu rhannu'n feysydd gwahanol yma:

Iechyd:

Y Blaid Lafur: Cronfa newydd i dalu am drin salwch sy'n bygwth bywyd

Y Blaid Geidwadol: Amddiffyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gan sicrhau mwy o fuddsoddiad yn y gwasanaeth bob blwyddyn

Plaid Cymru: Sicrhau profi a diagnosis o ganser cyn pen 28 diwrnod

Plaid Cymru: Cyflogi 1 000 o feddygon a 5 000 o nyrsys ychwanegol

Y Blaid Werdd: Mwy o sylw i wasanaethau iechyd meddwl

Y Democratiaid Rhyddfrydol: Mwy o nyrsys ar wardiau ysbytai

Gofal

Y Blaid Lafur: Dyblu'r arian y mae gennych chi hawl i'w gadw cyn dechrau talu am ofal preswyl.
(*Mae'n rhaid talu os oes gennych chi tua £23 000 ar hyn o bryd*)

Y Blaid Geidwadol: Gwarchod asedau gwerth £100 000 y rhai sydd mewn gofal preswyl (*h.y. fydd dim rhaid i'r henoed dalu am ofal preswyl os oes ganddyn nhw hyd at £100 000 o asedau*).

Plaid Cymru: Gofal am ddim i'r henoed

Y Blaid Werdd: Datblygu ffyrdd newydd o roi gwasanaethau gofal cymdeithasol

Addysg

Y Blaid Lafur: £100m ychwanegol i wella safonau ysgolion

Y Blaid Geidwadol: Gweddnewid hyfforddiant athrawon a gwneud yn siŵr fod mwy o arian yn mynd i'r ystafell ddosbarth

Plaid Cymru: Sicrhau a chefnogi'r athrawon gorau

Plaid Cymru: Dileu hyd at £18 000 o ddyled myfyrwyr sy'n dod yn ôl i Gymru i weithio

Y Blaid Werdd: Peidio â chau rhagor o ysgolion

Y Blaid Werdd: Dim ffioedd dysgu i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru

Y Blaid Werdd: Buddsoddi arian mewn colegau addysg bellach

Y Democratiaid Rhyddfrydol: Dosbarthiadau llai mewn ysgolion babanod

Gofal Plant:

Y Blaid Lafur: Gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio

Y Blaid Geidwadol: Treblu'r gofal plant am ddim i 30 awr yr wythnos

Plaid Cymru: Darpariaeth meithrin rhad ac am ddim

Gwaith a'r Economi:

Y Blaid Lafur: Creu 100,000 o brentisiaethau o safon i rai o bob oed

Y Blaid Lafur: Toriadau mewn trethi i bob busnes bach yng Nghymru

Y Blaid Geidwadol: Creu mwy o swyddi drwy gefnogi busnesau bach

Y Blaid Geidwadol: Gwella seilwaith Cymru

Plaid Cymru: Creu 50 000 o brentisiaethau newydd

Plaid Cymru: Buddsoddi mewn trafndiaeth dros Gymru gyfan

Plaid Cymru: Creu Asiantaeth Datblygu Cymru i'r 21ain ganrif

Plaid Cymru: Torri trethi busnes

Plaid Cymru: Sicrhau mwy o waith i gwmnïau o Gymru pan fydd contractau cyhoeddus yn cael eu cynnig

Y Blaid Werdd: Cefnogi busnesau lleol

Y Blaid Werdd: Creu ynni, incwm a swyddi gyda phrosiectau ynni adnewyddadwy (haul, gwynt)

Y Blaid Werdd: Buddsoddi arian mewn trafndiaeth gyhoeddus, yn lle gwario ar yr M4

Y Blaid Werdd: Gwella'r cysylltiad rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru

Y Democratiaid Rhyddfrydol: Torri'r dreth incwm sylfaenol 1c (fel ei bod yn 19c yn lle 20c yng Nghymru)

Y Democratiaid Rhyddfrydol: Sefydlu corff sy'n cynnig cymorth ac arian i fusnesau bach

Y Democratiaid Rhyddfrydol: Rhoi'r hawl i gynghorau newid trethi busnes er mwyn rhoi hwb i ddatblygiad economaidd

Tai

Y Blaid Werdd: Codi 12 000 o dai newydd 'gwyrdd' y flwyddyn

Y Democratiaid Rhyddfrydol: Codi 20 000 o dai fforddiadwy dros bum mlynedd